



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL

CYNLLUN TCC

COD YMARFER



Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Conwy
Mewn dwylo diogel
Conwy Community Safety Partnership
In safe hands

Tabl Cynnwys.

1	GEIRFA.	6
2	RHAGAIR.	10
3	DATGANIAD YMRWYMIAD.	11
4	CYFLWYNIAD AC AMCANION.	
	4.1 CYFLWYNIAD	12
	4.2 AMCANION Y CYNLLUN	15
	4.3 ADOLYGU'R COD YMARFER A'R TREFNAU	15
5	DATGANIAD O BWRPAS AC EGWYDDORION.	
	5.1 EGWYDDORION CYFFREDINOL	17
	5.2 RHEOLI CWYNION	18
	5.3 HAWLFRAINT	18
	5.4 CAMERÂU A'R ARDALOEDD GORUCHWYLIO	18
	5.5 CYFLEUSTERAU MONITRO	19
	5.6 CYFLEUSTERAU RECORDIO	19
	5.7 GWYBODAETH DYSTIOLAETHOL	20
	5.8 FFOROGRAFFAU	21
	5.9 CYFARWYDDIADAU GWEITHREDU	21
6	PREIFATRWYDD A DIOGELU DATA.	
	6.1 PRYDER Y CYHOEDD	22
	6.2 DEDDFWRIAETH DIOGELU DATA	22
	6.3 CAIS AM WYBODAETH (MYNEDIAD TESTUN)	23
	6.4 EITHRIADAU I DDARPARU GWYBODAETH	24
	6.5 DEDDF TREFNAU AC YMCHWILIADAU TROSEDDOL, 1996	24
7	ATEBOLRWYDD A GWYBODAETH GYHOEDDUS.	25
8	ASESU'R SYSTEM A'R COD YMARFER.	
	8.1 MONITRO	27
	8.2 ARCHWILIO	27
9	ADNODDAU DYNOL.	
	9.1 PERCHNOGAETH	28
	9.2 STAFFIO'R YSTAFELL FONITRO	28
	9.3 HYFFORDDIANT	29
	9.4 DISGYBLAETH	29
	9.5 DATGANIAD CYFRINACHEDD	29
10	RHEOLI A GWEITHREDU CAMERÂU.	

10.1	EGWYDDORION CANLLAW	31
10.2	RHEOLAETH SYLFAENOL	32
10.3	RHEOLAETH EILAIDD	32
10.4	PROTOCOL DIGWYDDIADAU	32
11	MYNEDIAD AT, A DIOGELWCH, YR YSTAFELL FONITRO A'R/ NEU OFFER CYSYLLTIEDIG.	
11.1	AMOD MYNEDIAD	34
11.2	DIOGELWCH	34
12	RHEOLI DEUNYDDIAU WEDI EU RECORDIO.	
12.1	EGWYDDORION CANLLAW	35
12.2	SAFON CENEDLAETHOL AR GYFER RHYDDHAU DATA I DRYDYDD PARTI	35
12.3	TAPIAU FIDEO A CHYFRYNGAU RECORDIO ERAILL – DARPARIAETH AC ANSAWDD	37
12.4	CYFRYNGAU WEDI EU RECORDIO	37
12.5	COFRESTR CYFRWNG RECORDIO	37
12.6	POLISI RECORDIO	37
12.7	DEUNYDDIAU TYSTIOLAETHOL AR GYFER YR HEDDLU	37
13	<i>ATODIAD A – GWEITHWYR ALLWEDDOL A CHYFRIFOLDEBAU.</i>	
13.1	<i>PERCHNOGAETH</i>	<i>39</i>
13.2	<i>CYFRIFOLDEBAU PERCHNOGION:</i>	<i>39</i>
13.3	<i>CYFRIFOLDEBAU RHEOLWR/RHEOLWR DATA</i>	<i>39</i>
13.4	<i>CYFRIFOLDEBAU RHEOLWR Y CYNLLUN</i>	<i>39</i>
14	<i>ATODIAD B – DYFYNIADAU O DDEDDF DIOGELU DATA, 1998.</i>	<i>41</i>
15	<i>ATODIAD C – SAFON CENEDLAETHOL AR GYFER RHYDDHAU DATA I DRYDYDD PARTÏON.</i>	
15.1	<i>CYFLWYNIAD</i>	<i>45</i>
15.2	<i>POLISI CYFFREDINOL</i>	<i>45</i>
15.3	<i>CAIS SYLFAENOL I WELD DATA</i>	<i>45</i>
15.4	<i>CAIS EILAIDD I WELD DATA</i>	<i>47</i>
15.5	<i>MYNEDIAD TESTUN UNIGOL O DAN Y DDEDDFWRIAETH DIOGELU DATA</i>	<i>48</i>
15.6	<i>PROSES DATGELU:</i>	<i>49</i>
15.7	<i>DATGELU I'R CYFRYNGAU</i>	<i>50</i>
15.8	<i>EGWYDDORION</i>	<i>50</i>

Cydnabyddiaeth/Cyfeiriadau.

Cod Ymarfer Grŵp Defnyddwyr TCC Cymru Gyfan yn cynnwys cyngor oddi wrth Uned Gwybodaeth Llywodraeth Leol (LGIU), Grŵp Defnyddwyr TCC, Adran Datblygu Gwyddonol yr Heddlu, (PSDB) a'r Swyddfa Gartref.

Ac yn Cydymffurfio gyda:

BS7958: 2005 Cod Ymarfer Rheoli a Gweithredu Teledu Cylch Caeedig (TCC) –

BS7499: 2002 Cod Ymarfer (Darnau Perthnasol) yn Gwasanaethau Diogelu

Safleoedd Statig a Phatrôl Symudol 2002

BHS7858: Cod Ymarfer – Sgrinio Diogelwch Unigolion a Gyflogir yn yr Amgylchedd Diogelwch 2006

Cod Ymarfer TCC Awdurdod Diogelu Data.

GEIRFA.

<u>TERM</u>	EGLURHAD
<u>"Cyfnod Sgrinio Diogelwch" 16 Wythnos</u>	Y cyfnod y mae'n rhaid cwblhau'r Broses Sgrinio Diogelwch
<u>Staff Atodol</u>	Staff a gyflogir mewn gwaith 'amherthnasol'.
<u>BS7499: 2002</u>	Cod Ymarfer Diogelu Statig, Patrôl Symudol a gwasanaethau dal allweddi
<i>BS7858: 2006</i>	Cod Ymarfer sgrinio diogelwch gweithwyr a gyflogir mewn amgylchedd diogelwch
<u>BS7958: 2005</u>	Cod Ymarfer – Rheoli a Gweithredu Teledu Cylch Caeddig (TCC)
<u>BS EN ISO 9001</u>	Systemau Rheoli Ansawdd - Gofynion
<u>Cynllun TCC</u>	Yr holl drefniadau ar gyfer teledu cylch caeddig mewn ardal gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, y system dechnolegol, trefnau staff a gweithredu. NODYN: Nid yw system gyfan yn gyfyngedig i offer mewn un lleoliad yn unig. Gallai gynnwys systemau sy'n defnyddio deialu i mewn a deialu allan, trosglwyddo arunig neu barth datganoledig.
<u>System TCC</u>	Eitemau goruchwylio yn cynnwys camerâu ac offer cysylltiedig ar gyfer monitro, trosglwyddo a phwrpasau rheoli i'w defnyddio mewn parth diogelwch diffiniedig.
<u>Cyflogaeth wedi'i chadarnhau</u>	Cyflogaeth a roddir ar gwblhau sgrinio diogelwch llwyddiannus ac unrhyw feini prawf ychwanegol a ddefnyddir gan sefydliad.
<u>Ystafell Reoli</u>	Ardal ddiogel mewn adeilad lle caiff data TCC ei fonitro, ei dderbyn a'i ddadansoddi.
<u>COSHH</u>	Rheoliadau Rheoli Sylweddau sy'n Niweidiol i Iechyd 2002
<u>Data</u>	Yr holl wybodaeth gan gynnwys hynny am unigolyn. NODYN: Mewn systemau TCC, mae hyn yn cynnwys lluniau, ac unrhyw wybodaeth arall, cysylltiedig neu wedi ei brosesu

<u>Rheolwr Data</u>	Unigolyn sy'n penderfynu ar gyfer beth ac ym mha fodd y caiff data personol ei brosesu neu ei ddatgelu
<u>Prosesydd Data</u>	Unigolyn sy'n prosesu data wedi ei storio ar ran y Rheolwr Data
<u>DDA</u>	Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995
<u>DPA</u>	Deddf Diogelu Data 1998
<u>DSE</u>	Offer Sgrin Arddangos Unrhyw sgrin alffaniwmerig neu graffig waeth beth yw'r broses arddangos sy'n gysylltiedig. Y ddwy sgrin arddangos gonfensiynol (cathode ray tube) a phrosesau arddangos eraill fel arddangosfeydd hylif crisial a thechnolegaethau eraill sydd ar y gweill .
<u>Print Copi Caled</u>	Copi papur o ddelwedd, neu ddelweddau sydd eisoes yn bodoli ar ddeunydd wedi recordio.
<u>HSW</u>	Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974.
<u>Digwyddiad</u>	Gweithgarwch sy'n achosi pryder bod trosedd wedi cael ei chyflawni, neu ar fin cael ei chyflawni, neu yn ddigwyddiad sydd wedi gwarantu camau penodol gan weithredwr.
<u>Swydd Ddisgrifiad</u>	Dogfen sy'n manylu ar y gweithgareddau perthnasol a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â rôl benodol neu swydd o fewn sefydliad.
<u>Rheolwr</u>	Unigolyn a benodir i oruchwylio a gorfodi gweithredu'r polisïau a'r trefnau fel diffinnir gan berchennog y cynllun.
<u>Dull Goruchwylio</u>	Dull goruchwylio system TCC, lle caiff monitro ei wneud yn fyw, a'i brif bwrpas ydi goruchwylio gweithrediad mewn amser real, nid i'w recordio, ei gadw ar gof, na phrintio'r wybodaeth a dderbyniwyd.
<u>Gweithredwr</u>	Unigolyn wedi ei dynodi a'i hawdurdodi yn benodol gan berchennog system TCC i weithredu rheoli'r system honno. NODYN: Mae ystyr y gair 'gweithredwr' yn Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Offer Sgrin Arddangos) 1992 yn wahanol i'r defnyddio'r gair mewn rhannau eraill o'r ddogfen hon.

<u>Perchennog</u>	Unigolyn neu gorff, asiantaeth neu'n gyfreithiol wedi ei dynodi fel bod â chyfrifoldeb cyffredinol am ffurfio a gweithredu polisiau, pwrpasau a rheoli'r cynllun TCC. NODYN: Mae Rôl y Perchennog hefyd yn cynnwys cyfrifoldebau statudol, gan gynnwys rôl 'rheolwr data' fel nodwyd yn y D P A, 1998, adran 1, isadran 1[1]. Gallai'r perchennog bod yn bartneriaeth cyn belled bod cyfansoddiad ffurfiol iddi.
<u>Manylion y Cyflogaeth</u>	Dogfen yn cynnwys gwahanol fanylion ynglŷn â chyflogaeth yn aelod staff newydd gan gynnwys dyddiad dechrau, teitl swydd, lleoliad, oriau gwaith, cyflog, etc.
<u>Partner</u>	Unigolion neu grwpiau sydd â chyfrifoldeb ar y cyd am sefydlu mudiad a'i reolaeth barhaus a'i weithrediad gyda phob parti â chyfrifoldeb hafal fel arfer o dan reolaeth swyddog gweithredol etholedig.
<u>Data Personol</u>	'Data a all fod yn berthnasol ac unigolyn byw y gellir ei adnabod: o'r data hynny, neu, <i>o'r data hynny a gwybodaeth eraill sydd ym meddiant, neu yn debygol o ddod i feddiant, y rheolwr data</i> '.
<u>Prosesu</u>	'Mewn perthynas â gwybodaeth neu ddata, yn golygu cael, prosesu, recordio neu ddal yr wybodaeth neu ddata neu wneud unrhyw weithred neu set o weithrediadau ar yr wybodaeth neu ddata.
<u>Cyflogaeth Dros Dro</u>	<u>Cyfnod cyflogaeth dechreuol ar gyfer unigolyn newydd ar ôl cael sgrinio diogelwch dechreuol ac yn ystod lle bydd sgrinio diogelwch llawn yn cael ei wneud.</u>
<u>Deunyddiau wedi ei Recordio</u>	Unrhyw ddata wedi ei recordio ar unrhyw gyfrwng sydd â'r gallu i storio data y gellir wedyn ei adfer waeth beth fo'r amser.
<u>Deunyddiau Recordio</u>	Unrhyw gyfrwng sydd â'r gallu i storio data ac y gellir adfer y data waeth beth fo'r amser.
<u>Cyflogaeth Berthnasol</u>	<u>Unigolyn sydd, ar ba bynnag sail, yn cael eu cyflogi o fewn amgylchedd diogelwch preifat.</u>
<u>System Adfer</u>	System TCC sydd â'r gallu, mewn unrhyw gyfrwng, o ddal data yn effeithiol, yn gallu ei adfer, ei weld neu ei brosesu yn ddiweddarach.

<u>RIPA</u>	Deddf Rheoli Pwerau Ymchwiliadol 2000
<u>Rheolwr Sgrinio</u>	Unigolyn o fewn sefydliad sy'n gyfrifol am reoli sgrinio.
<u>Cyfnod Sgrinio Diogelwch</u>	Cyfnod o ddim llai na 10 mlynedd yn union o flaen dechrau cyflogaeth berthnasol neu drosglwyddo i gefnogaeth berthnasol, neu yn ôl i'r dyddiad o stopio addysg uwchradd llawn amser, os yw'r dyddiad yn fwy perthnasol.
<u>Proses Sgrinio Diogelwch</u>	Proses ymchwiliadol sy'n bwriadu dynodi integreidd ac addasrwydd ymgeisydd am waith o fewn amgylchedd diogelwch.
<u>Data Personol Sensitif</u>	Data personol wedi ei storio o fewn system y gellir ei hadfer sydd yn sensitif trwy rinwedd ei gynnwys a'i oblygiadau, hynny yw data sy'n dynodi y comisiynwyd neu yr honnir y comisiynwyd unrhyw droseddau.
<u>Testun Data</u>	Delweddau yn cael eu gweld ar sgrin boed hynny yn uniongyrchol o gamera neu ar dâp recordio.
<u>Goruchwyliwr</u>	Unigolyn wedi eu dynodi yn benodol i hyfforddi a'u hawdurdodi gan berchennog cynllun i sicrhau bob amser bod y system yn gweithredu yn unol â'r cod ymarfer ac unrhyw gyfarwyddyd trefniadol a wneir gan y rheolwr neu'r perchennog. NODYN: Gallai hyn gynnwys rôl a chyfrifoldebau "rheolwr data" (Gweler y NODYN yn y rhan Perchennog o'r Geirfa hwn.)
<u>Defnyddiwr</u>	Gweithiwr sydd yn defnyddio sgrin arddangos o bryd i'w gilydd fel rhan sylweddol o'i waith normal.
<u>Gorsaf waith</u>	Sefyllfa a sefydlwyd, ac sydd a'r offer ar gyfer darparu amgylchedd addas ar gyfer gweithiwr i wneud ei ddyletswyddau yn gysylltiedig â'i waith.

2. RHAGAIR.

Bwriad y Cod Ymarfer hwn ydi cael ei ddefnyddio ar y cyd â Llawlyfr Trefniadol manwl a ddrafftwyd i'w ddefnyddio gan Gynllun TCC Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. ***Mae'r Llawlyfr trefniadol wedi ei gyfyngu i'r rheiny sy'n gysylltiedig â gweithredu a rheoli'r cynllun TCC.***

Mae'r dogfennau hyn ynghyd ag ymrwymiad i hyfforddi staff wedi ei dylunio i sicrhau bod y system TCC yn parhau'n effeithiol ac yn cael ei weithredu i safon uchel o onestrwydd ac atebolrwydd.

Bydd Cod Ymarfer Cyffredin yn cael ei ddiweddarau o bryd i'w gilydd i adlewyrchu deddfwriaethau a chanllaw arfer gorau ddiweddar.

3. DATGANIAD YMRWYMIAD.

Datganiad Ymrwymiad.

Cod Ymarfer Mewn Perthynas â Gweithredu System TCC Cyngor Bwrdeistref
Sirol Conwy

Cytunwyd gan:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

A Heddlu Gogledd Cymru.

Trwy hyn caiff cynnwys y Cod Ymarfer hwn a'r Llawlyfr Trefniadol eu cymeradwyo mewn perthynas â System Teledu Cylch Caeedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, a bydd pawb sy'n gysylltiedig â rheoli a gweithredu'r System yn cydymffurfio ag o, cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol bosibl.

Arwyddwyd ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Heddlu Gogledd Cymru.

.....K. Finch,
Prif Weithredwr Dros Dro,
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

.....J.M. Polin,
Prif Gwnstabl,
Heddlu Gogledd Cymru.

Dyddiad.....2010.

NODYN:

Mae'r ddogfen hon yn diweddarau ac yn dod yn lle'r Cod Ymarfer gwreiddiol a gytunwyd rhwng Cyngor Bwrdeistref Colwyn a Heddlu Gogledd Cymru dyddiedig 19 Rhagfyr 1995.

4. CYFLWYNIAD AC AMCANION.

4.1 CYFLWYNIAD:

- 4.1.1 Mae'n rhaid i Gynllun Teledu Cylch Caeddig (TCC) sy'n derbyn, cadw neu'n prosesu data am unigolyn a amlygir gydymffurfio efo deddfwriaeth benodol, yn bwysicaf oll y Ddeddf Diogelu Data, 1998 (DPA), Deddf Iawnderau Dynol, 1998 (HRA) ac yn olaf, trwy rinwedd cofrestru efo'r N.S.I. o dan ei Gynllun Arian, gydymffurfio gyda Safonau Prydeinig perthnasol BS 7958: 1999 a BS7858: 2004. Dyluniwyd y Cod Ymarfer hwn i ategu at y ddeddfwriaeth honno mewn cod model sydd yn sicrhau tegwch, pwrpas ac atebolrwydd.
- 4.1.2 Mae'r Cynllun TCC wedi esblygu o ffurfio partneriaeth anweithredol rhwng Heddlu Gogledd Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Ar gyfer pwrpas y ddogfen hon, 'Perchennog' y cynllun yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a'r 'Rheolwr' ac felly'r 'Rheolwr Data' ydi Pennaeth y Gwasanaethau Rheoleiddio. Mae manylion cyfrifoldebau personél allweddol a phwyntiau cyswllt yn **Atodiad A – Personél Allweddol a Chyfrifoldebau** i'r Cod hwn.
- 4.1.3 I fynd gyda'r Cod Ymarfer hwn (neu'r 'Cod') bydd Llawlyfr Trefniadol ar wahân sydd yn amlinellu'r cyfarwyddiadau ar bob agwedd o weithredu'r System. Er mwyn sicrhau gwireddu'r pwrpas ac egwyddorion y system TCC (gweler **Paragraff 5 - Datganiad o Bwrpas ac Egwyddorion**), mae'r llawlyfr yn seiliedig ar egwyddorion y Cod Ymarfer hwn. Cytunwyd ar y Cod Ymarfer hwn rhwng yr asiantaethau hynny a'r sefydliadau sy'n gysylltiedig â datblygu cynlluniau TCC o fewn Bwrdeistref Sirol Conwy, yn bennaf Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Heddlu Gogledd Cymru. Caiff ei dderbyn fel bod wedi ei rwymo. Bydd egwyddorion y Cod hwn hefyd yn berthnasol i unrhyw asiantaeth gorfodi'r gyfraith sy'n dymuno cael tystiolaeth fideo.

- 4.1.4 Mae'r Cod Ymarfer hwn yn rhoi argymhellion ar gyfer gweithredu a rheoli TCC o fewn amgylchedd reoledig, lle gall data y gellir ei gynnig fel tystiolaeth ei dderbyn, ei storio, ei adolygu neu ei ddadansoddi.
- 4.1.5 Mae'r cod ymarfer hwn yn berthnasol i gynllun TCC a ddefnyddir mewn mannau cyhoeddus sydd yn ardaloedd lle caiff y cyhoedd eu hannog i ddod i mewn neu â hawl i ymweld, fel canol trefi, canolfannau siopa, cludiant cyhoeddus, iechyd, etc. a goruchwyllo lle cyhoeddus.
- 4.1.6 Pwrpas y cynllun ydi darparu amgylchedd diogel ar gyfer y rheiny sydd yn byw, yn masnachu, yn ymweld ac yn gweithio yn yr ardal. Mae'r Cod hwn yn berthnasol i unrhyw system TCC sydd yn perthyn i ac yn cael ei weithredu gan Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac yn cael ei ddefnyddio mewn ardaloedd lle mae gan y cyhoedd "*hawl i ymweld*" a nhw. Mae'r ardaloedd hyn yn cynnwys:
- a) Lle sydd mewn perchnogaeth breifat ond lle nad yw'r cyhoedd yn gweld unrhyw ffin
 - b) Lle lle caiff gwasanaeth cyhoeddus ei gynnig
 - c) Llwybrau cyhoeddus, ffyrdd, llwybrau ceffylau, etc
 - d) Sefydliadau addysgol, ysbytai
 - e) Meysydd chwaraeon, archfarchnadoedd, ardaloedd tai.

4.2 AMCANION Y CYNLLUN:

- 4.2.1. Caiff prif amcanion TCC eu crynhoi fel â:
- a) Cynorthwyo efo canfod, atal a'r ofn o drosedd,
 - b) Hwyluso efo canfod ac erlyn troseddwyd mewn perthynas â throedd a threfn gyhoeddus,
 - a) Darparu preswylwyr, ymwelwyr a busnesau gyda gwell teimlad o ddiogelwch,
 - b) Annog diogelwch cymunedol, hybu'r economi ac annog mwy o ddefnydd o ganol trefi/canolfannau siopa etc.,
 - c) Cynorthwyo'r Awdurdod Lleol yn ei orfodaeth a'i swyddogaeth rheoleiddio,
 - d) Cynorthwyo efo rheoli traffig,

- 4.2.2 Caiff edrych i mewn i anheddau a swyddfeydd preifat ei atal cyn belled a bo'n bosibl, er mwyn cadw preifatrwydd a sicrhau nad yw'r Cynllun yn cael enw drwg.
- 4.2.3 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Heddlu Gogledd Cymru yn parchu hawl pob dinesydd unigol i breifatrwydd. Gwnaethpwyd pob ymdrech wrth ddylunio a gosod yr holl gynlluniau TCC i warchod yr egwyddor hwn cyn belled a bo hynny'n ymarferol. Os ydi unrhyw unigolyn yn gallu gwneud honiad rhesymol fod ei breifatrwydd wedi cael ei herio yna bydd y mater yn cael ei ystyried gan Drefn Cwynion y Cyngor (hefyd gweler y **Paragraff 5.2 - Rheoli Cwynion**).
- 4.2.4 Eiddo Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ydi'r System TCC ac mae ei weithrediad o dan reolaeth uniongyrchol Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy sy'n atebol i'r Cyngor.
- 4.2.5 Mae lleoliadau'r camerâu o fewn Sir Conwy wedi eu rhestru yn **Atodiad I – Lleoliad Camerâu/Rhifau**
- 4.2.6 Cydnabyddir mewn partneriaeth rhwng y Cyngor a Heddlu Gogledd Cymru, mai swyddogaeth y Cynllun ydi cael data tystiolaethol sy'n berthnasol i ddigwyddiadau o fewn yr amcanion a nodwyd, a swyddogaeth yr heddlu i arestio troseddwr gan ei fod yn gyfrifoldeb ar yr heddlu i brosesu tystiolaeth ar gyfer dibenion erlyn.
- 4.2.7 Bydd staff yn gweithio ar y System 24 awr y dydd, 365 diwrnod o'r flwyddyn. Bydd y Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio yn rheoli'r system a bydd yn cadw'r hawl o fonitro'r System yn unol â'r amgylchiadau ar y pryd. Bydd gweithwyr o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn staffio'r Ystafell Reoli.
- 4.2.8 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cydnabod pwysigrwydd cael tystiolaeth weledol o ansawdd da, y gellid ei ddefnyddio i ddiogelu erlyniaeth am drosedd. Mae'r cyfrifoldeb am gael erlyniad o'r fath yn gorwedd gyda Gwasanaeth Erlyniad y Goron. Er y gwneir pob ymdrech i sicrhau bod gweithrediad y Cynllun TCC tu hwnt edliw, mae'n amlwg mai cyfrifoldeb Heddlu Gogledd Cymru ydi sicrhau dilysrwydd unrhyw

dystiolaeth unwaith caiff ei drosglwyddo o'r Ystafell Reoli, ac i ddychwelyd tystiolaeth o'r fath i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

4.3 ADOLYGU'R COD YMARFER A'R ADRODDIAD BLYNYDDOL:

4.3.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (Perchennog y Cynllun) a Heddlu Gogledd Cymru yn cydnabod pwysigrwydd hyder y cyhoedd yn y Cynllun TCC hwn. Mae'r Cod wedi cael ei lunio yn dilyn ymgynghoriad sylweddol. Bydd y Cyngor a'r Heddlu yn parhau i werthuso effeithlonrwydd TCC a gweithrediad y Cod. Bydd perchnogion y Cynllun yn cynnal adolygiad blynyddol. Yn dilyn ei adolygiad blynyddol o'r cynllun a ffurfio a dosbarthu adroddiad blynyddol er budd y Comisiynydd Data, bydd y cod hwn yn cael ei adolygu a'i newid os bydd angen.

4.3.3 Bydd adolygiad o'r fath yn cael ei wneud gan Berchnogion y Cynllun ynghyd â'r Rheolwr Data a Rheolwr y Cynllun er mwyn sicrhau effeithlonrwydd y system. Dim ond ar y cyd â Pherchnogion y Cynllun y caiff unrhyw newidiadau sylweddol eu gwneud i'r Cod Ymarfer. Gall Rheolwr y Cynllun wneud newidiadau bach; fodd bynnag bydd yn rhaid eu dilysu yn ôl-weithredol yn y cyfarfod rheoli nesaf, a byddant ond yn cael eu categoreiddio fel bod yn rhai parhaol a ffurfiol pan y cant eu cadarnhau yn ystod yr adolygiad blynyddol nesaf.

4.3.4 Bydd canlyniad yr adolygiad blynyddol yn cael ei gofnodi a bydd unrhyw bwyntiau gweithredu y cytunwyd arnynt yn cael dyraniad o amser i'w gweithredu.

4.3.5 Bydd yr adolygiad blynyddol yn digwydd cyn llunio adroddiad blynyddol er gwybodaeth i'r Comisiynydd Data a bydd ar gael i'r cyhoedd ar gais penodol.

4.3.6 Bydd yr adroddiad blynyddol yn cynnwys, ond ni fydd yn gyfyngedig i'r pynciau canlynol:

- a) Disgrifiad o'r Cynllun a ffiniau daearyddol ei weithrediad
- b) Datganiad polisi'r Cynllun
- c) Pwrpas a sgôp y Cynllun

- d) Unrhyw newidiadau i weithrediad neu reolaeth y Cynllun
- e) Unrhyw newidiadau i'r polisi
- f) Unrhyw gynigion i ymestyn neu ostwng y Cynllun un ai yn ei ffiniau neu niferoedd y camerâu
- g) Nodau ac amcanion ar gyfer y cyfnod adolygu nesaf
- h) Llwyddiannau'r Cynllun yn ystod y cynllun adolygu diwethaf, gan gynnwys- (a) Nifer o ddigwyddiadau a gofnodwyd a (b) Nifer o ddigwyddiadau a gafodd eu riportio i'r heddlu neu unrhyw asiantaeth erlyn arall
- i) Asesiad o effaith y Cynllun ar drosedd a threfn gyhoeddus o fewn ffiniau'r Cynllun.

5. DATGANIAD O BWRPAS AC EGWYDDORION.

5.1 EGWYDDORION CYFFREDINOL:

- 5.1.1 Pwrpas darparu TCC ydi atal troseddau yn erbyn pobl ac eiddo, gwella rhagolygon canfod trosedd, erlyn troseddwr, gwella diogelwch a hyder cyhoeddus trwy ostwng yr ofn o ymddygiad troseddol a gwrthgymdeithasol. Hefyd, gellir ei ddefnyddio ar gyfer Rheoli Canol Trefi a'r gwasanaethau rheoleiddio yn ôl doethineb Diogelwch Cymunedol Conwy cyn belled fod defnydd o'r fath yn cyd-fynd efo'r amcanion a nodwyd yn y Cynllun.
- 5.1.2 Bydd y Cynllun yn cael ei weithredu yn deg, o fewn y gyfraith, a dim ond ar gyfer y pwrpasau y cafodd ei sefydlu, neu sydd o ganlyniad yn unol â'r Cod Ymarfer hwn.
- 5.1.3 Bydd y Cynllun yn cael ei weithredu gan ystyried yr egwyddor bod gan bawb yr hawl i gael parch i'w fywyd preifat a theuluol a'u gartref.
- 5.1.4 Bydd lles y cyhoedd yng ngweithrediad y Cynllun yn cael ei gydnabod trwy sicrhau diogelwch ac integreidd trefnau gweithredu.
- 5.1.5 Trwy gydol y Cod hwn bwriedir, cyn belled a bo hynny'n ymarferol bosibl; i gynnig cydbwysedd rhwng amcanion y Cynllun TCC a'r angen i ddiogelu hawl yr unigolyn i breifatrwydd. Trwy gydol y Cod gwneir pob ymdrech i ddynodi bod strwythur ffurfiol wedi cael ei sefydlu, (gan gynnwys trefn gwyno) a dylid gweld bod y Cynllun nid yn unig yn atebol, ond yn cael ei weld i fod yn atebol.
- 5.1.6 Mae cymryd rhan yn y Cynllun gan unrhyw sefydliad lleol, unigolyn neu awdurdod yn dod ar sail cytundeb gan bawb i gydymffurfio'n llawn efo'r Cod hwn a bod yn atebol o dan y Cod Ymarfer.

5.2 RHEOLI CWYNION:

Mae Perchnogion y Cynllun wedi cymeradwyo polisi cwynion, sydd yn **Atodiad K – Polisi Cwynion**, a'r bwriad yw sicrhau y bydd unrhyw gwyn, boed honno yn un wir a'i peidio yn cael ei drin yn gyflym ac yn ddiduedd. Bydd unrhyw gwyn a dderbynnir gan y Cynllun yn cael ei phasio yn uniongyrchol i Reolwr y Cynllun er mwyn sicrhau ymateb cyflym priodol

5.3 HAWLFRAINT:

Bydd yr hawlfraint a pherchnogaeth o unrhyw ddeunyddiau a recordir yn rhinwedd System TCC Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn aros efo'r Rheolwr Data.

5.4 CAMERAU AC ARDALOEDD GORUCHWYLIO:

5.4.1. Yr ardaloedd daearyddol y mae'r Cynllun yn eu goruchwyllo ydi:

Abergele
 Bae
 Conwy
 Deganwy
 Glan Conwy
 Bae Cinmel
 Cyffordd Llandudno
 Llandudno
 Llysfaen
 Mochdre
 Hen Golwyn
 Penmaenmawr
 Llandrillo yn Rhos
 Tywyn

Mae lleoliadau'r camerâu wedi eu rhestru yn Atodiad I.

5.4.2 Mae rhan fwyaf o'r camerâu yn cynnig gallu gweld lliw llawn, tremio a ar wyriad a thynhau a llacio (PTZ), rhai ohonynt y gellir ei switsio yn awtomatig i fonocrom mewn amgylchiadau lle mae golau isel.

5.4.3 Gellir defnyddio camerâu monocrom a/neu ddefnyddio lampau isgoch os yw amodau goleuo/gweithredol yn dynodi hynny.

5.4.4 Ni fydd camerâu 'covert' yn cael eu defnyddio.

5.4.5 Ni recordir sain mewn ardaloedd cyhoeddus.

5.4.6 Bydd "parthau" preifatrwydd yn cael eu defnyddio lle mae'n debygol o amharu yn weledol ar anheddau preifat.

5.5 CYFLEUSTERAU MONITRO:

- 5.5.1 Mae ystafell fonitro gyda staff wedi ei lleoli o fewn ardal y Fwrdeistref Sirol.
- 5.5.2 Mae offer monitro eilaidd wedi ei leoli o fewn ystafell reoli Heddlu Gogledd Cymru a'r ganolfan fonitro. Fodd bynnag, nid oes gan unrhyw offer heblaw am hwnnw sydd yn y brif ystafell reoli TCC y gallu i gofnodi delweddau oddi ar unrhyw o'r camerâu.
- 5.5.3 Bydd o leiaf un gweithredwr yn bresennol o fewn yr Ystafell Reoli drwy gydol yr oriau gweithredu. Cedwir goruchwyliaeth barhaus o'r camerâu drwy'r amser.
- 5.5.4 Bydd rheolaeth o'r system yn parhau gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy TRWY'r amser.
- 5.5.5 Pe bai Heddlu Gogledd Cymru neu unrhyw asiantaeth gorfodi'r gyfraith yn gofyn am neu'n dymuno i Swyddog gynnal gwaith monitro yn y brif ystafell reoli TCC, bydd hyn fel arfer yn cael ei ganiatáu yn amodol ar gael awdurdod y Rheolwr Cynllun TCC ac awdurdod priodol mewn perthynas â RIPA . Bydd pob digwyddiad o'r fath yn cael eu logio.

5.6 CYFLEUSTERAU RECORDIO:

- 5.6.1 Bydd lluniau o bob camera yn cael eu cofnodi. Bydd yr holl recordiadau yn cael eu dileu bob 31 diwrnod.
- 5.6.2 Bydd cyfleusterau ar gael i drosglwyddo'r delweddau i gyfryngau y gellir eu symud. Bydd pob trosglwyddiad o ddelweddau yn cael eu nodi a'u logio.
- 5.6.3 Mae POB recordiad o signalau o'r system hon yn aros yn eiddo i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Ni fydd unrhyw recordiadau yn cael eu dangos, eu benthyca, eu llogi, eu gwerthu neu ei gynghori i UNRHYW UN heb awdurdod.
- 5.6.4 Bydd unrhyw gyfryngau y gellir eu symud sydd yn cynnwys delweddau fideo a drosglwyddwyd/a gopiwyd o'r System yn cael Rhif Cyfeirnod Unigryw a'i nodi yn y cofnodion systemau.

- 5.6.5 Pe bai unrhyw gyfryngau y gellir eu symud yn cael eu creu sydd yn cynnwys delweddau ar gyfer defnydd tystiolaethol byddant yn cael eu storio yn yr ystafell reoli TCC am 28 diwrnod cyn cael eu dileu.
- 5.6.6 Bydd unrhyw ddelweddau, gan gynnwys delweddau llonydd, yn cael eu storio o fewn yr ystafell reoli, yn cael eu hadolygu o bryd i'w gilydd a'u dinistrio gan Reolwr y Cynllun.
- 5.6.7 Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn sicrhau bod yr holl wybodaeth sydd â thystiolaeth droseddol ond yn cael ei drosglwyddo i'r Heddlu neu unrhyw asiantaeth erlyn eraill, os yw'r gweithredwr yn fodlon bod natur y dystiolaeth yn gwarantu camau o'r fath.
- 5.6.15 Mae gan y Rheolwr Data'r awdurdod i ryddhau delweddau i'r cyhoedd, cyn belled bod y weithred yn cael ei hystyried fel bod yn cydymffurfio ac amcanion y Cynllun a restrwyd ym **Mharagraff 4.2 - Amcanion y Cynllun**.

5.7 GWYBODAETH DYSTIOLAETHOL:

- 5.7.1 Er mwyn sicrhau bod data, ym mha bynnag fformat, yn cael ei ddefnyddio fel tystiolaeth, bydd y trefnau canlynol yn cael eu dilyn: Bydd y Gweithredwr yn cofrestru, trwy'r System Gwybodaeth Rheoli TCC:
- a) Dyddiad ac amser unrhyw ddigwyddiad,
 - b) Dyddiad ac amser creu unrhyw dystiolaeth cyfryngau y gellir eu symud,
 - c) Gwybodaeth berthnasol mewn perthynas â'r digwyddiad,
 - d) Unrhyw asiantaeth gorfodi'r gyfraith sydd yn gysylltiedig.
- 5.7.2 Bydd recordiad o ddigwyddiadau yn cael eu cadw am 28 diwrnod o'r recordiad cyn cael eu dileu neu eu dinistrio. Cydnabyddir mai cyfrifoldeb Heddlu Gogledd Cymru yw rhoi gwybod i'r Ystafell Rheoli TCC os oes angen tystiolaeth wedi recordio ar gyfer pwrpasau tystiolaethol a chasglu unrhyw dystiolaeth o'r fath o fewn y cyfnod 28 diwrnod.

- 5.7.3 Bydd cofnod yn cael ei gadw ar gofrestr ryddhau tystiolaeth wedi ei recordio i'r Heddlu neu unrhyw ymgeiswyr eraill gydag awdurdod.
- 5.7.4 Pe bai digwyddiad yn cael ei recordio ar dâp fideo a bod angen hwnnw i amddiffyn unigolyn, bydd yr holl amodau sy'n ymwneud â rhyddhau tapiau i'r Heddlu hefyd yn berthnasol.
- 5.7.5 Rhaid i unrhyw gyfrwng recordio sydd heb ei lofnodi allan aros o fewn yr Ystafell Reoli TCC
- 5.7.6 Cyfrifoldeb yr un sy'n derbyn unrhyw ddelweddau a geir o'r Ystafell Rheoli ydi dychwelyd y cyfrwng neu gadarnhau ei fod wedi cael ei ddiarbroddio.

5.8 FFOTOGRAFFAU:

- 5.8.1 Dim ond i gynorthwyo efo canfod a chynnal amcanion y cynllun y bydd unrhyw ddelwedd a dynnir o'r system yn cael ei ddefnyddio.
- 5.8.2 Bydd unrhyw gopiâu caled o ddelweddau o'r system TCC yn cael eu nodi.
- 5.8.3 Efallai y cedwir ffeil o ffotograffau (delweddau llonydd) yn dangos y croesyfeiriadau priodol i'r recordiadau.

5.9 CYFARWYDDIADAU GWEITHREDU:

- 5.9.1 Mae cyfarwyddiadau technegol ar ddefnyddio'r offer sydd yn yr ystafell reoli mewn llawlyfr ar wahân a ddarperir gan gyflenwyr yr offer.

6 PREIFATRWYDD A DIOGELU DDATA.

6.1 PRYDER Y CYHOEDD:

6.1.1 Er bod mwyafrif o'r cyhoedd yn gyffredinol wedi dod i arfer efo '*cael eu gwyllo*', mae'r rheiny sydd yn mynegi pryder yn gwneud yn bennaf ynglŷn â materion sy'n ymwneud â phrosesu'r wybodaeth, (neu ddata), h.y. beth sy'n digwydd i'r deunydd sydd wedi cael ei ddal.

O.N.: Mae prosesu yn golygu cael, recordio neu ddal yr wybodaeth neu ddata neu gynnal unrhyw weithred neu set o weithrediadau ar yr wybodaeth neu ddata, gan gynnwys:

- a) Trefnu, addasu neu newid yr wybodaeth neu ddata
- b) Adfer, ymgynghori neu ddefnyddio'r wybodaeth neu ddata
- c) Datgelu'r wybodaeth neu ddata drwy ei drosglwyddo, ei ddsbarthu neu ei wneud ar gael mewn modd arall, neu
- d) Alinio, cyfuno, blocio, dileu neu ddinistrio'r wybodaeth neu ddata.

6.1.2 Bydd unrhyw ddata personol a geir trwy rinwedd System TCC Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, yn cael ei brosesu yn deg ac yn gyfreithlon ac, yn benodol, bydd ond yn cael ei brosesu wrth ymarfer cyflawni amcanion y system a gafodd ei nodi. Wrth brosesu data personol parchir hawl pawb i gael preifatrwydd i'w bywyd teuluol a'u cartref.

6.2 DEDDFWRIAETH DIOGELU DATA:

6.2.1 Mae System TCC Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi ei chofrestru efo swyddfa'r Comisiynydd Diogelu Data efo'r Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio yn cael ei enwebu fel Rheolwr Data.

6.2.2 Bydd yr Holl ddata yn cael ei brosesu yn unol ag egwyddorion Deddf Diogelu Data, 1998 sydd yn gryno, yn cynnwys, ond ddim yn gyfyngedig i:

- a) Bydd pob data personol yn cael ei gaffael a'i brosesu yn deg a chyfreithlon.

- b) Dim ond ar gyfer y pwrpasau a nodwyd y bydd data personol yn cael ei gadw.
- c) Dim ond ar gyfer y pwrpasau a nodwyd a'r bobl a nodir yn y codau ymarfer hyn y bydd data personol yn cael ei ddefnyddio.
- d) Dim ond data personol sydd yn berthnasol, yn ddigonol a heb fod yn ormodol fydd yn cael ei gadw
- e) Mewn perthynas â'r pwrpas y bydd y data yn cael ei gadw.
- f) Bydd camau yn cael eu cymryd i sicrhau bod data personol yn gywir a lle bo'n berthnasol, yn cael ei ddiweddarau.
- g) Ni fydd data personol yn cael ei gadw am ddim mwy na sydd ei angen.
- h) Bydd unigolion yn cael gweld gwybodaeth a gedwir amdanynt a, lle bo'n briodol, yn cael caniatâd i gywiro neu i gael gwared arno,
- i) Bydd trefnau yn cael eu gweithredu i gymryd camau diogelwch i atal mynediad heb awdurdod neu ddamweiniol at:
 - i. Addasu, datgelu neu golli a
 - ii. Dinistrio, gwybodaeth.

6.3 CAIS AM WYBODAETH (Mynediad Testun):

6.3.2 Bydd unrhyw gais oddi wrth unigolyn am ddatgelu data personol y mae o/hi yn credu sydd wedi ei gofnodi trwy rinwedd y system yn cael ei gyfeirio at Reolwr y System, (neu'r Rheolwr Data).

6.3.3 Dylid dilyn egwyddorion Adran 7 ag 8 Deddf Diogelu Data 1998 (Hawl Testunau Data ac Eraill) mewn perthynas â phob cais; mae'r Rhannau hynny wedi eu hailadrodd yn **Atodiad B – Dyfyniadau o'r Ddeddf Diogelu Data 1998 i'r codau hyn.**

6.3.4 Mae mynediad i wybodaeth neu ddata o'r system gan Heddlu Gogledd Cymru yn amodol ar logio. **Atodiad N- Cais am Hawl i Wybodaeth.**

6.4 EITHRIADAU I DDARPARU GWYBODAETH:

6.4.1 Wrth ystyried cais a wnaed o dan ddarpariaethau Adran 7 Deddf Diogelu Data 1998, gellid hefyd cyfeirio at Adran 29 y Ddeddf sydd yn cynnwys, ond ddim yn gyfyngedig i, y datganiad canlynol.

1. Mae data Personol a brosesir am unrhyw un o'r pwrpasau canlynol –

a) Atal neu ganfod trosedd

b) Canfod neu erlyn troseddwyr.

Wedi eu heithrio o'r ddarpariaeth mynediad at destun mewn unrhyw achos "i'r ystent y byddai defnyddio'r darpariaethau hynny i'r data yn debygol o effeithio ar unrhyw o'r materion anodwyd yn yr isadran hon'.

O.N.: *Bydd pob un cais yn cael ei asesu ar ei rinweddau ei hun ac ni fydd eithriadau 'blanced' cyffredinol yn cael eu defnyddio.*

6.5 DEDDF TREFNAU AC YMCHWILIADAU TROSEDDOL, 1996:

6.5.1 Daeth Deddf Trefnau ac Ymchwiliadau Troseddol, 1996 i rym ym mis Ebrill 1997 ac fe'i gyflwynwyd fframwaith statudol ar gyfer datgelu i ddiffynyddion deunyddiau na fyddai'r erlyniaeth yn bwriadu ei ddefnyddio wrth gyflwyno ei achos ei hun, (gelwir hwn yn ddeunyddiau na ddefnyddir). Byddai unrhyw grynoded eglurhaol o ddarpariaethau'r Ddeddf o fewn y llawlyfr trefniadol, ond ni ddylid drysu datgelu deunyddiau na ddefnyddir o dan ddarpariaethau'r Ddeddf hon gyda goblygiadau a roddir ar y Rheolwr Data gan Adran 7 Deddf Diogelu Data 1998 (a elwir yn fynediad at destun).

7. ATEBOLRWYDD A GWYBODAETH GYHOEDDUS.

- 7.1.1 Am resymau diogelwch a chyfrinachedd, mae cyfyngiad ar y mynediad i'r ystafell monitro TCC yn unol â'r Cod Ymarfer hwn. Fodd bynnag, er lles agoredrwydd ac atebolrwydd, gall unrhyw un sy'n dymuno ymweld â'r ystafell wneud hynny, yn amodol ar gael caniatâd, a gwneud trefniadau ymlaen llaw gyda Rheolwr y System.
- 7.1.2 Ni fydd camerâu yn cael eu defnyddio i edrych i mewn i eiddo preswyl preifat. Efallai bydd 'parthau Preifatrwydd' yn cael eu rhaglennu i mewn i'r system fel sy'n ofynnol er mwyn sicrhau nad yw tu mewn unrhyw eiddo preswyl preifat o fewn llygad y system yn cael ei gweld gan gamerâu.
- 7.1.3 Gall unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n dymuno cofrestru cwyn mewn perthynas ag unrhyw agwedd o system TCC Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wneud hynny trwy gysylltu â Phrif Weithredwr yr Awdurdod neu swyddfa'r Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio. Bydd unrhyw gŵyn yn cael ei thrin yn unol â'r rheolau a rheoliadau cyfredol y mae holl aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, gan gynnwys gweithredwyr TCC, yn eu dilyn.
- 7.1.4 Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel Perchnogion y Cynllun,
- Yn derbyn adroddiadau rheolaidd ac aml oddi wrth reolwr y Cynllun
 - Enwebu pwyllgor gyda chyfrifoldeb penodol am dderbyn ac ystyried yr adroddiadau hynny.
 - Bydd ymgynghoriad ffurfiol yn cael ei gynnal rhwng perchnogion a rheolwyr y Cynllun mewn perthynas â holl agweddau'r Cynllun.
- 7.1.5 Rheolwr y Cynllun sydd â chyfrifoldeb am y Cynllun yn gyffredinol o ddydd i ddydd.
- 7.1.6 Bydd y Cynllun yn cael ei archwilio gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy neu ddirprwy a enwebir efo cyfrifoldeb lefel sefydliadol o leiaf yn

cyfateb i hynny â chyfrifoldeb Rheolwr y Cynllun, ond nid Rheolwr y Cynllun.

- 7.1.7 Bydd gwybodaeth ystadegol a gwybodaeth berthnasol arall, gan gynnwys unrhyw gŵynion a wneir, yn cael eu cynnwys yn Adroddiad Blynyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a fydd ar gael yn gyhoeddus.
- 7.1.8 Bydd taflen gwybodaeth gyhoeddus (gweler **Atodiad M - Taflen Gwybodaeth Cyhoeddus**); ar gael i unrhyw un sydd yn gofyn amdanynt. Bydd copïau ychwanegol mewn llyfrgelloedd, Cyngorau Tref a Chymuned o fewn Sir Conwy a phrif swyddfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.
- 7.1.9 Adroddiad Blynyddol: Bydd copi o'r adroddiad blynyddol hefyd ar gael i unrhyw un sydd eisiau. Bydd copïau ychwanegol yn cael eu cadw mewn llyfrgelloedd cyhoeddus, Cyngorau Tref a Chymuned o fewn Sir Conwy a phrif swyddfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.
- 7.1.10 Arwyddion: Bydd arwyddion yn cael eu gosod mewn ardaloedd lle mae'r camerâu ac mewn pwyntiau prif fynedfeydd ardaloedd perthnasol, e.e. Rheilffyrdd a Gorsafoedd Bws. Bydd yr arwyddion yn nodi:
- a) Presenoldeb monitro TCC,
 - b) 'Perchnogaeth' y system, h.y. Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, a
 - c) Rhif ffôn cyswllt 'Rheolwr Data' y system.

8 ASESU'R SYSTEM A'R COD YMARFER.

8.1 MONITRO:

Bydd Rheolwr y Cynllun â chyfrifoldeb o ddydd i ddydd am fonitro, gweithredu a gwerthuso'r system a gweithredu'r Cod Ymarfer hwn.

8.2 ARCHWILIO:

Bydd Perchnogion y Cynllun yn sicrhau bod unigolion sydd ddim yn uniongyrchol gysylltiedig â'r rheolau a'r materion gweithredol o ddydd i ddydd yn gyfrifol am archwilio gweithrediad y Cynllun, a'u bod yn cydymffurfio efo'r Cod Ymarfer hwn. Bydd archwiliadau (a allai fod ar ffurf gwiriadau ar hap) yn cynnwys archwilio cofnodion yr ystafell fonitro, hanes tapiau fideo a chynnwys deunyddiau a recordiwyd.

Mae'r swyddogaeth archwilio hefyd wedi cael ei dilysu yn allanol gan yr Arolygiaeth Diogelwch Cenedlaethol a fydd yn cynnal archwiliadau rheolaidd er mwyn cydymffurfio gyda'i phrotocol archwilio.

9 ADNODDAU DYNOL.

9.1 PERCHNOGAETH:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy dan reolaeth uniongyrchol y Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio sydd berchen ar y Cynllun TCC.

9.2 STAFFIO'R YSTAFELL FONITRO:

- 9.2.1 Bydd yr Ystafell Monitro TCC yn cael ei staffio yn unol â threfnau mewnol. Dim ond gweithwyr ag awdurdod fydd yn cael gweithio'r offer sy'n gysylltiedig efo'r system TCC a byddant wedi cael hyfforddiant priodol i'w ddefnyddio, ynghyd â'r holl drefnau ystafell monitro. Bydd gan bob gweithredwr fynediad at, neu efo copi personol o'r codau ymarfer a'r llawlyfr trefniadol. Byddant yn hollol gyfarwydd gyda chynnwys y ddwy ddogfen a fydd yn cael eu diweddarau o bryd i'w gilydd, a bydd disgwyl iddynt gydymffurfio cyn belled a bod hynny'n ymarferol â nhw bob amser. Gallai methu a chydymffurfio â'r Codau Ymarfer neu'r Llawlyfrau Trefniadol fod yn gamymddwyn difrifol a gallai olygu camau disgyblu, sifil neu mewn rhai amgylchiadau erlyniaeth droseddol.
- 9.2.2 Bydd yr holl staff a recriwtir yn cael eu gwirio yn unol â threfnau awdurdod lleol a chydymffurfio efo BS 7499: 2002 a BS 7858 2004 er mwyn sicrhau mai dim ond pobl o galibr ac onestrwydd addas sy'n cael eu cyflogi i fonitro ac i weithredu Cynllun TCC. Bydd cwblhau cyfnod prawf addas yn amodol ar ddilysu gwiriadau diogelwch, cyflogaeth, iechyd a manylion eraill.
- 9.2.3 Bydd angen i bob unigolyn sy'n gysylltiedig â'r system TCC o ran y Cod Ymarfer hwn lofnodi datganiad cyfrinachedd.

NI FYDD UNRHYW STAFF SYDD HEB GAEL HYFFORDDIANT YN DEFNYDDIO'R SYSTEM DAN UNRHYW AMGYLCHIADAU

9.3 HYFFORDDIANT:

9.3.1 Bydd llwyddiant ac effeithlonrwydd y Cynllun TCC yn dibynnu'n bennaf ar hyfforddiant ei weithwyr. Bydd perchnogion y Cynllun yn sicrhau bod ei staff wedi cael hyfforddiant llawn i'r safon gofynnol gan BS 7958: 1999 ac i gydymffurfio efo'r canllawiau a gyhoeddwyd ganddynt fel y gellir cael y manteision mwyaf posibl o'r Cynllun a bod yna ddealltwriaeth ymysg pawb o'r arferion gwaith.

Bydd hyfforddiant yn cynnwys:

- a) Amodau gwaith, gan gynnwys telerau cyflogaeth a materion Iechyd a Diogelwch
- b) Defnyddio offer priodol
- c) Gweithredu systemau priodol, gan gynnwys gwybodaeth leol o'r safleoedd i'w monitro
- d) Rheoli deunyddiau wedi ei recordio, gan gynnwys trin a storio data
- e) Materion deddfwriaethol a chyfreithiol perthnasol
- f) Materion preifatrwydd a datgelu
- g) Polisi Disgyblu.

9.3.2 Bydd hyfforddiant o'r fath yn cael ei ddarparu trwy gyfuniad o hyfforddiant ystafell ddosbarth oddi ar y safle a hyfforddiant strwythuredig ar y safle a gwerthuso.

9.3.3 Bydd hyfforddiant allanol a mewnol yn cael ei werthuso gyda'r hyfforddeion hyn trwy gyfweiliad personol gyda Rheolwr y Cynllun a chwblhau cofnod gwerthuso hyfforddiant.

9.3.4 Bydd anghenion hyfforddiant ychwanegol ar gyfer pwrpasau datrys neu ddatblygu gyrfa i gymhwyster cydnabyddedig cenedlaethol yn cael ei werthuso bob 12 mis trwy werthusiad blynyddol.

9.4 DISGYBLAETH:

9.4.1 Bydd unrhyw unigolyn sydd ag unrhyw gyfrifoldeb o dan delerau'r Cod Ymarfer hwn ac sydd ag unrhyw gysylltiad efo'r Cynllun TCC yn destun cod disgyblu Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Bydd torri'r Cod hwn

neu unrhyw agwedd o gyfrinachedd yn cael ei drin yn unol â'r rheolau disgyblu hynny.

- 9.4.2 Bydd Rheolwr y Cynllun yn derbyn cyfrifoldeb sylfaenol am sicrhau nad oes unrhyw gyfaddawdu o ran diogelwch ac y cydymffurfir gyda'r Cod Ymarfer. Ef neu hi sydd â chyfrifoldeb o ddydd i ddydd am reoli'r ystafell reoli a gorfodi'r rheolau disgyblu.

9.5 DATGANIAD CYFRINACHEDD:

- 9.5.1 Bydd angen i bob unigolyn sydd â chyfrifoldeb o dan delerau'r Cod Ymarfer hwn ac sydd ag unrhyw gysylltiad efo'r System TCC y maent yn cyfeirio ati, lofnodi datganiad cyfrinachedd. Mae hyn yn cynnwys staff a Chontractwyr.
- 9.5.2 Bydd angen i bob ymwelydd â'r ystafell reoli lofnodi llyfr ymwelwyr, wrth wneud hynny maent yn llofnodi datganiad cyfrinachedd ac yn glynu ato. .
- 9.5.3 Bydd unrhyw Gontractwr neu is-gontractwr sy'n ymweld â'r ystafell reoli ar gyfer gwaith gosod neu gynnal yn llofnodi datganiad cyfrinachedd cyn mynd i mewn i'r ystafell reoli. **Atodiad F - Datganiad Cyfrinachedd Contractwyr**, (gweler hefyd **Paragraff 11.1 Amodau Mynediad**, ynglŷn â mynediad i'r ystafell fonitro gan eraill).

10 RHEOLI A GWEITHREDU CAMERAU.

10.1 EGWYDDORION CANLLAW:

- 10.1.1 Bydd unrhyw un sy'n gweithredu'r camerâu yn gweithredu gyda'r cywirdeb mwyaf bob amser.
- 10.1.2 Bydd defnyddio'r camerâu yn unol â phwrpasau ac amcanion allweddol y Cynllun a bydd yn cydymffurfio efo'r Cod Ymarfer hwn.
- 10.1.3 Ni fydd camerâu yn cael eu defnyddio i edrych i mewn i eiddo preswyl preifat. Bydd 'Parthau preifatrwydd' yn cael eu rhaglennu i mewn i'r Cynllun lle bo hynny'n bosibl er mwyn sicrhau nad yw tu mewn unrhyw eiddo preifat o fewn sgôp y Cynllun yn cael eu gweld gan y camerâu.
- 10.1.4 Bydd gweithredwyr camera yn ystyried rhagfarnau a allai arwain at gŵynion ynglŷn â bod y Cynllun yn cael ei ddefnyddio am bwrpasau heblaw am yr hynny ei bwriadwyd. Efallai bydd angen i weithredwyr gyfiawnhau eu diddordeb mewn, neu recordio, unrhyw unigolyn, grŵp neu unigolion neu eiddo penodol ar unrhyw adeg trwy rinwedd yr archwiliad o'r Cynllun neu gan y Rheolwr System.
- 10.1.5 Bydd archwiliad ar hap yn cael ei gynnal gan y Rheolwr Cynllun/Goruchwyliwr er mwyn sicrhau bod yr holl ddata sy'n cael ei storio wedi cael ei ddal un unol â'r amcanion a ddiffiniwyd o'r Cynllun ac nad yw egwyddorion y Cynllun yn cael eu cyfaddawdu. Bydd pob archwiliad ar hap yn cael eu dogfennu gan gynnwys amser/dyddiad yr archwiliad, y data a gafodd ei archwilio a'r canlyniad.
- 10.1.6 Pe bai gan unrhyw Aelod o'r Cyhoedd bryderon bod unrhyw gamera o fewn y system yn amharu yn afresymol ar eu preifatrwydd gallant gysylltu â Rheolwr y Cynllun a fydd, os yn fodlon bod y cais yn un ddilys, yn datrys y broblem. Os nad yw'r achwynydd yn fodlon gyda'r ymateb hwn, bydd cwyn bellach yn cael ei ystyried yn unol â Threfn Gŵynion y Cyngor.

10.2 RHEOLAETH SYLFAENOL:

Dim ond Gweithredwyr TCC a'r Rheolwr Cynllun TCC fydd â mynediad at y teclynnau rheoli gweithredu.

10.3 RHEOLAETH EILAIDD:

Ni fydd rheolaeth eilaidd yn digwydd.

10.4 PROTOCOL DIGWYDDIADAU:

10.4.1 Pe bai digwyddiad yn cael ei weld gan Weithredwr TCC, y mae o neu hi yn credu sydd angen gweithredu arno mae'n rhaid iddo nodi'r digwyddiad a chysylltu â'r gwasanaeth argyfwng priodol neu adran ALL. Mae'n rhaid i'r Gweithredwr gysylltu â'r heddlu os yw yn gweld trosedd yn digwydd neu unigolyn/unigolion yn gweithredu mewn modd amheus.

10.4.2 Gellir diffinio digwyddiad fel:

(a) Amgylchiad, neu set o amgylchiadau sydd yn peri iddynt gredu bod trosedd neu sefyllfa anhrefn cyhoeddus yn digwydd, ar fin digwydd neu newydd ddigwydd ac y gellir cyflawni amcanion y Cynllun, (atal, canfod, amlinellu troseddwr neu adfer tawelwch cyhoeddus) trwy oruchwyliaeth uniongyrchol

Neu

(b) Yn achos cynnal fflyd traffig, trwy ymyriad uniongyrchol, gellir rheoli'r fflyd traffig neu ei ostwng trwy amlinellu achos y rhwystr yn y fflyd traffig.

(c) Mewn amgylchiadau lle mae unigolyn neu unigolion wedi ei hamlygu mewn amgylchiadau y gellir credu bod hynny'n eu gwneud yn rhai diamddiffyn.

10.4.3 Mae'n rhaid i Weithredwr TCC gwblhau Adroddiad Digwyddiad ar gyfer unrhyw ddigwyddiad a gaiff ei weld. Bydd yr holl ddigwyddiadau yn cael eu logio gan y Gweithredwr TCC.

10.4.5 Bydd goruchwyliaeth uniongyrchol ond yn cael ei gadw cyn hired ag sydd ei angen i oruchwyllo adferiad yn ôl i normalrwydd, neu nes bod yr holl ddata sydd ei angen i ddarparu tystiolaeth i gefnogi erlyniad dilynol wedi ei gaffael.

11 MYNEDIAD AT, A DIOGELWCH, YR YSTAFELL FONITRO A/NEU OFFER CYSYLLTIEDIG.

11.1 AMOD MYNEDIAD:

11.1.1 Bydd cod diogelwch ar ddrws yr Ystafell Reoli bob amser.

11.1.2 Bydd mynediad i'r Ystafell Reoli wedi ei gyfyngu yn benodol i'r rheiny a restrir yn **Atodiad J - Mynediad i'r Ystafell Reoli TCC.**

11.1.3 Waeth beth fo'u statws, bydd yn rhaid i'r holl ymwelwyr â'r ystafell fonitro TCC, gan gynnwys arolygwyr ac archwilwyr, lofnodi'r llyfr ymwelwyr a'r datganiad cyfrinachedd.

11.2 DIOGELWCH:

Fel arfer bydd staff gydag awdurdod yn bresennol bob amser pan fo'r offer yn cael ei ddefnyddio. Os yw'r cyfleuster monitro yn cael ei adael gyda neb yno o ganlyniad i sefyllfa frys bydd wedi ei ddiogelu. Pe bai'r ystafell fonitro yn gorfod cael ei gwagio am resymau diogelwch, cydymffurfir gyda'r ddarpariaeth o'r Llawlyfr Trefniadol.

12. RHEOLI DEUNYDDIAU WEDI EI RECORDIO.

12.1 EGWYDDORION CANLLAW:

12.1.1 I ddibenion y Cod hwn mae 'deunyddiau wedi ei recordio' yn golygu unrhyw ddeunyddiau sy'n cael ei recordio gan, neu o ganlyniad i, offer technegol sy'n ffurfio rhan o System Teledu Cylch Caeddig Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, ond yn benodol yn cynnwys delweddau sydd wedi ei recordio yn ddigidol, neu ar dap fideo neu trwy ffordd o gopïo fideo, gan gynnwys printiadau fideo.

12.1.2 Mae gan bob recordiad fideo a ddefnyddir ar y cyd gyda System TCC Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy'r potensial o gynnwys deunyddiau sydd wedi cael ei gyflwyno fel tystiolaeth ar ryw adeg yn ystod ei hyd oes.

12.1.3 Mae'n rhaid i aelodau o'r gymuned fod â hyder bod yr wybodaeth a recordir ynglŷn â'i gweithgareddau arfer o ddydd i ddydd trwy rinwedd y system, yn cael ei drin gyda pharch i'w hawl unigol i gael parch i'w fywyd preifat a theuluol.

12.1.4 Felly, mae o'r pwysigrwydd mwyaf bod pob modd o recordio fideo (e.e. tâp/CD/DVD/ dyfais gofio) yn cael ei drin yn unol â'r Cod Ymarfer a'r Llawlyfr Trefniadol o'r foment y cafodd ei ddarparu i'r ystafell fonitro nes ei fod yn cael ei ddinistrio yn derfynol. Bydd pob symudiad a defnydd yn cael ei gofnodi yn fanwl.

12.1.5 Bydd mynediad i, a'r defnydd o, ddeunyddiau wedi eu recordio yn benodol ar gyfer y pwrpasau a diffiniwyd yn y Cod Ymarfer hwn yn unig.

12.1.6 Ni fydd deunyddiau wedi eu recordio yn cael eu copïo, eu gwerthu, eu rhyddhau fel arall neu eu defnyddio ar gyfer pwrpasau masnachol neu ar gyfer darparu adloniant.

12.2 SAFON CENEDLAETHOL AR GYFER RHYDDHAU DATA I DRYDYDD PARTI:

12.2.1 Bydd pob cais am ryddhau data personol a gesglir gan y Cynllun TCC hwn yn cael ei sianelu trwy'r Rheolwr Cynllun (neu'r Rheolwr Data). Bydd y Rheolwr Cynllun yn sicrhau bod yr egwyddorion sydd yn

Atodiad C – Safon Cenedlaethol ar gyfer Rhyddhau Data i Drydydd Parti) i'r Cod Ymarfer hwn yn cael eu dilyn bob amser.

12.2.2 Wrth gydymffurfio gyda'r safon cenedlaethol ar gyfer rhyddhau data i drydydd parti, bwriedir, cyn belled a bo'n ymarferol, i ddiogelu hawl yr unigolyn i breifatrwydd a gweithredu'r egwyddorion canlynol:

- a) Bydd deunyddiau wedi eu recordio yn cael eu prosesu yn gyfreithlon a theg, a'u defnyddio yn unig ar gyfer y pwrpasau a ddiffiniwyd yn y Cod Ymarfer hwn;
- b) Bydd mynediad at ddeunyddiau wedi eu recordio dim ond yn digwydd yn unol â'r safonau a amlinellwyd yn **Atodiad C - Safon Cenedlaethol ar gyfer Rhyddhau Data i Drydydd Partion** a'r Cod Ymarfer hwn;
- c) Gwaherddir rhyddhau neu ddatgelu data ar gyfer pwrpasau masnachol neu adloniant.

12.2.3 Gallai aelodau o'r gwasanaeth heddlu neu asiantaeth arall sydd ag awdurdod statudol i ymchwilio a/neu erlyn troseddau, yn amodol i gydymffurfio ag **Atodiad C - Safon Cenedlaethol ar gyfer Rhyddhau Data i Drydydd Partion**, rhyddhau manylion gwybodaeth recordiwyd i'r cyfryngau yn unig mewn ymdrech i amlygu troseddwr honedig neu dystion posibl. O dan amgylchiadau o'r fath bydd manylion llawn yn cael eu recordio yn unol â'r Llawlyfr Trefniadol. **Nodyn:** Gallai rhyddhau gwybodaeth wedi ei recordio i'r cyfryngau, ym mha bynnag fformat, fod yn rhan o ymchwiliad cyfredol a fyddai'n dod o dan Deddf Heddlu a Thystiolaeth Droseddol, 1984. Dylid ond gwneud datgeliad o'r fath ar ôl ystyriaeth ddyledus o'r effaith tebygol ar achos troseddol. Mae'n rhaid cofnodi manylion llawn unrhyw ohebiaeth i'r cyfryngau a'i ddwyn i sylw'r erlynydd a'r amddiffynnydd.

12.2.4 Os dangosir deunyddiau i dystion, gan gynnwys swyddogion yr heddlu, i'r pwrpas o gael tystiolaeth, rhaid ei ddangos yn unol ag **Atodiad C – Safon Cenedlaethol ar gyfer Rhyddhau Data i Drydydd Partion** a'r Llawlyfr Trefniadol.

12.2.5 Gallai fod yn fanteisiol gwneud defnydd o ohebiaeth fideo 'real' ar gyfer hyfforddi ac addysgu'r rheiny sy'n gysylltiedig â gweithredu a rheoli systemau TCC, ac ar gyfer y rheiny sy'n gysylltiedig ag ymchwilio, atal a chanfod trosedd. Bydd unrhyw ddeunyddiau a recordir trwy rinwedd y system TCC hwn ond yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pwrpasau hyfforddiant ac addysg dilys.

12.3 TAPIAU FIDEO A CHYFRYNGAU RECORDIO ERAILL – DARPARIAETH AC ANSAWDD:

Er mwyn sicrhau ansawdd y delweddau a bydd gwybodaeth a recordir yn cwrdd â'r meini prawf a amlinellwyd gan ganllawiau cyfredol y Swyddfa Gartref, dim ond cyfryngau y gellir ei recordio ar gyfer y broses yn unig fydd yn cael eu defnyddio.

12.4 CYFRYNGAU WEDI EU RECORDIO - CADW:

12.4.1 Bydd cyfryngau recordio y gellir eu symud, sy'n cynnwys delweddau neu ddata yn cael eu cadw am gyfnod o 28 diwrnod.

12.4.2 Nid yw recordwyr dreif caled yn addas i'w symud. Os yw'r data cyfan ar gyfrwng o'r fath ei angen i'w ddefnyddio mewn ymchwiliad, yna rhaid cael copi delwedd uniongyrchol.

12.5 COFRESTR CYFRWNG RECORDIO:

Bydd gan bob cyfrwng recordio cofnod trac unigryw. Bydd y cofnodion yn cael eu cadw am o leiaf tair blynedd, ar ôl i'r cyfrwng cael ei ddinistrio.

12.6 POLISI RECORDIO:

Caiff yr holl ddelweddau camera eu recordio gan y system. Caiff delweddau eu dileu ac felly eu dinistrio bob 31 diwrnod. Mae gan weithredwyr y cyfleuster i greu delwedd ffeil arall y gellir ei storio yn yr ystafell reoli neu ar gyfrwng y gellir ei symud. Bydd y Rheolwr Cynllun yn sicrhau archwiliad rheolaidd o ddelweddau o'r fath.

12.7 DEUNYDDIAU TYSTIOLAETHOL AR GYFER YR HEDDLU:

12.7.1 Cyfrifoldeb yr Heddlu ydi i reoli casglu tystiolaeth fideo i gynorthwyo efo erlyn troseddwy, a chadw'r deunyddiau nes bod yr achos, neu bo'r amser statudol yn pasio er mwyn caniatáu ar gyfer apêl.

12.7.2 Bydd gan bob cyfrwng rif cyfeirnod unigryw. Bydd yr holl ddeunyddiau a recordir yn y Cynllun yn cael eu cadw ar gofrestr briodol. Cyfrifoldeb yr Heddlu neu asiantaeth briodol arall sydd â mynediad at dystiolaeth fideo wedi dychwelyd y cyfrwng i'r ystafell reoli neu gadarnhau ei fod wedi ei ddinistrio.

13 ATODIAD A – GWEITHWYR ALLWEDDOL A CHYFRIFOLDEBAU.

13.1 PERCHNOGAETH:

Perchennog y Cynllun ydi:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Y Ganolfan Ddinesig, Bodlondeb, Conwy
Ffôn: 01492 – 575400

13.2 CYFRIFOLDEBAU'R PERCHENNOG:

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn enwebu unigolyn fel Rheolwr a Rheolwr Data'r System sef Pennaeth y Gwasanaethau Rheoleiddio.

13.3 CYFRIFOLDEBAU'R RHEOLWR/ RHEOLWR DATA:

Rheolwr a Rheolwr Data'r System ydi'r:

Pennaeth y Gwasanaethau Rheoleiddio, Y Swyddfeydd Dinesig, Bae Colwyn. LL29 8AR.

Ffôn: 01492 – 575203.

Mae'r Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio:

- a) Yn atebol i Berchennog y System TCC,
- b) Yn gyfrifol am enwebu Rheolwr Cynllun,
- c) Yn gyfrifol am sicrhau bod buddiannau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cael eu cynnal yn unol â thelerau'r Cod Ymarfer hwn,
- d) Yn gyfrifol am sicrhau bod y perchnogion yn cael y newyddion diweddaraf ynglŷn â pherfformiad y System a newidiadau neu addasiadau i'r Cod Ymarfer.

13.4 CYFRIFOLDEBAU RHEOLWR Y CYNLLUN:

Mae Rheolwr y System yn gyfrifol am sicrhau bod y System yn cael ei rheoli gan Reolwr Cynllun.

Bydd eu rôl yn cynnwys:

- a) Cyfrifoldeb am reoli'r system a'r staff o ddydd i ddydd;

- b) Cyfrifoldeb cyffredinol am y system ac am sicrhau y cydymffurfir efo'r Cod Ymarfer hwn;
- c) Cyfrifoldeb am sicrhau bod bob Gweithredwr yn gweithio'r System yn unol â'r Cod Ymarfer a'r Llawlyfr Trefniadol.
- d) Cadw cysylltiad agos efo Rheolwr a Rheolwr Data'r system.

14 ATODIAD B – DYFYNIADAU O DDEDDF DIOGELU DATA, 1998.**Adran 7**

- 1) Yn amodol ar y darpariaethau canlynol o'r adran hon ac adrannau 8 a 9, mae gan unigolyn hawl:
 - a) I gael gwybod gan unrhyw Rheolwr Data os ydi unrhyw ddata personol a'r unigolyn hwnnw yw testun y data yn cael ei brosesu gan neu ar ran y Rheolwr Data hwnnw
 - b) Pe bai hynny'n wir, dylai'r Rheolwr Data roi disgrifiad:
 - i) O'r data personol y mae'r unigolyn hwnnw'n destun iddo;
 - ii) Y pwrpas pam eu bod neu y byddant yn cael eu prosesu;
 - iii) Y bobl neu'r dosbarthiadau o bobl y bydd y data neu efallai bydd y data yn cael ei datgelu iddynt,
 - c) Wedi cyfathrebu gyda nhw mewn ffordd ddeallus:
 - i) Yr wybodaeth sy'n cynnwys data personol y mae'r unigolyn hwnnw yn destun iddo, ac
 - ii) Unrhyw wybodaeth sydd ar gael i'r Rheolwr Data fel ffynhonnell y data hwnnw
 - d) Pan fo data personol y mae'r unigolyn hwnnw'n destun iddo'n cael ei brosesu trwy ddulliau awtomatig i ddibenion gwerthuso materion sy'n ymwneud â'r unigolyn hwnnw er enghraifft perfformiad yn y gwaith, teilyngdod, dibynadwyedd neu eu hymddygiad, wedi golygu neu'n debygol o olygu sylfaen ar gyfer unrhyw benderfyniad sy'n effeithio arnynt yn sylweddol, i gael gwybod gan y Rheolwr Data am y rhesymeg tu ôl i gymryd y penderfyniad hwnnw.
- 2) Does dim rhaid i Reolwr Data gyflenwi unrhyw wybodaeth o dan isadran (1) oni bai eu bod wedi cael:
 - a) Cais trwy lythyr, a
 - b) Heblaw mewn achosion a ragnodwyd, y ffi byddant eu hangen (heb fod yn fwy na'r uchafswm a ragnodwyd).
- 3) Does dim rhaid i Reolwr Data gydymffurfio efo cais o dan yr adran hon oni bai ei fod yn cael yr wybodaeth o'r fath y bydd ei angen fel y gall fod yn fodlon pwy yw'r un sy'n gwneud y cais ac y gall ddod o hyd i'w wybodaeth mae'r unigolyn hwnnw ei eisiau.
- 4) Lle na all Rheolwr Data gydymffurfio efo cais heb ddatgelu gwybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn arall y gellir eu hadnabod o'r wybodaeth honno, does dim rhaid iddo gydymffurfio efo'r cais oni bai: (a) bod yr unigolyn arall wedi rhoi caniatâd i ddatgelu'r wybodaeth i'r un sy'n gwneud y cais, neu (b) ei bod hi'n rhesymol dan yr holl amgylchiadau i gydymffurfio efo'r cais heb gael caniatâd yr unigolyn arall.
- 5) Yn is-adran (4) mae'r cyfeiriad at wybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn arall yn cynnwys cyfeiriad at wybodaeth sy'n amlygu'r unigolyn hwnnw fel ffynhonnell yr wybodaeth y gofynnir amdani; ac ni ddylid dehongli'r isadran honno fel bod yn esgusodi'r Rheolwr Data

rhag cyfathrebu gymaint o'r wybodaeth a geisir gan y cais ag y gellir ei gyfathrebu heb ddatgelu pwy yw'r unigolyn arall dan sylw, un ai trwy adael allan enwau neu nodweddion adnabod eraill neu fel arall.

- 6) Wrth benderfynu ar gyfer pwrpasau isadran (4)(b) is yw hi'n rhesymol dan yr holl amgylchiadau i gydymffurfio efo'r cais heb ganiatâd yr unigolyn arall dan sylw, bydd yn rhaid talu sylw penodol i:
- a) Unrhyw ddyletswydd o gyfrinachedd sy'n ddyledus i'r unigolyn arall,
 - b) Unrhyw gamau a gymrir gan y Rheolwr Data gyda'r golwg o geisio caniatâd yr unigolyn arall,
 - c) Os yw'r unigolyn arall yn gallu rhoi caniatâd, ac
 - d) Unrhyw fynegiant o ganiatâd gan yr unigolyn arall.
- 7) Gallai unigolyn sy'n gwneud cais o dan yr adran hon, mewn achosion o'r fath fel rhagnodwyd, nodi bod eu cais yn gyfyngedig i ddata personol o unrhyw ddisgrifiad a ragnodwyd.
- 8) Yn amodol ar isadran (4), bydd Rheolwr Data yn cydymffurfio efo cais o dan yr adran hon ar unwaith ac mewn unrhyw achos cyn diwedd y cyfnod a ragnodwyd yn dechrau efo'r diwrnod perthnasol.
- 9) Os ydi llys yn fodlon bod unrhyw un sydd wedi gwneud cais o dan ddarpariaethau'r adran hon bod y Rheolwr Data dan sylw wedi methu cydymffurfio efo'r cais yn groes i'r darpariaethau hynny, gallai'r llys orchymyn iddo gydymffurfio efo'r cais.
- 10) Yn yr adran hon:
 Mae 'rhagnodwyd' yn golygu rhagnodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol trwy reoliadau;
 Mae'r 'uchafswm a ragnodwyd' yn golygu swm y gellir ei rhagnodi;
 Mae'r 'cyfnod a ragnodwyd' yn golygu pedwar deg diwrnod neu gyfnod arall y gellir ei ragnodi;
 Mae'r 'diwrnod perthnasol', mewn perthynas â chais o dan yr adran hon, yn golygu'r diwrnod mae'r Rheolwr Data yn cael y cais, neu os yn hwyrach, y diwrnod cyntaf mae'r Rheolwr Data wedi cael y ffi ofynnol a'r wybodaeth y cyfeirir ati yn is-adran (3).
- 11) Gellir rhagnodi gwahanol symiau neu gyfnodau o dan yr adran hon mewn perthynas â gwahanol achosion.

Adran 8

- 1) Mae rheoliadau'r Ysgrifennydd Gwladol yn darparu, mewn achosion a ragnodir, y dylid trin cais am wybodaeth o dan unrhyw ddarpariaethau is-adran (1) adran 7 fel bod yn berthnasol hefyd i wybodaeth o dan y ddarpariaeth o'r is-adran honno.
- 2) Rhaid cwblhau'r ymrwymiad a roddir gan adran 7(1)(c)(i) trwy roi copi o'r wybodaeth ar ffurf parhaol i destun yr wybodaeth oni bai:
 - a) Nad yw'n bosibl cyflenwi copi o'r fath neu byddai'n golygu ymdrech afresymol
 - b) Bod testun y data yn cytuno fel arall.

A lle mynegir unrhyw ran o'r wybodaeth y cyfeirir ati yn adran 7(1)(c)(i) yn annealladwy heb eglurhad, rhaid rhoi eglurhad o'r termau hynny gyda'r copi.

- 3) Pan fo Rheolwr Data wedi cydymffurfio eisoes efo cais a wnaed o dan adran 7 oddi wrth unigolyn, does dim rhaid i'r Rheolwr Data gydymffurfio efo cais union neu debyg o dan yr adran honno gan yr unigolyn hwnnw oni bai bod amser rhesymol wedi pasio ers y cydymffurfiwyd efo'r cais blaenorol a gwneud y cais presennol.
- 4) Wrth benderfynu, ar gyfer pwrpasau is-adran (3) os yw ceisiadau a wneir o dan adran 7 bod amser rhesymol wedi pasio ers gwneud cais, bydd rhaid ystyried natur y data, pam fod y data yn cael ei brosesu a pha mor aml mae'r data'n cael ei newid.
- 5) Ni ddylid darparu gwybodaeth ynglŷn â'r rhesymeg tu ôl gwneud penderfyniad mewn perthynas ag adran 7 (1)(4) os, ac i'r graddau bod, yr wybodaeth yn cynnwys cyfrinach fasnachol.
- 6) Rhaid cyflenwi'r wybodaeth yn dilyn y cais o dan adran 7 trwy gyfeirio at y data dan sylw ar yr adeg y ceir y cais, heblaw am os yw'n ystyried unrhyw newid neu ddilead a wnaed rhwng yr amser hynny a'r amser pan gyflenwir yr wybodaeth, a bod hwnnw'n newid neu ddilead a fyddai wedi cael ei wneud pe derbyniwyd y cais ai peidio.
- 7) Ar gyfer pwrpasau adran 7(4) a (5) gellir adnabod unigolyn arall o'r wybodaeth sy'n cael ei datgelu os gellir eu hadnabod o'r wybodaeth honno, neu o honno neu unrhyw wybodaeth arall, sydd yng nghred resymol y Rheolwr Data, yn debygol o fod ym meddiant testun y data sy'n gwneud y cais. NODYN: Canllawiau yw'r dyfyniadau hyn yn unig. Er mwyn cydymffurfio efo'r ddeddf, dylid cyfeirio at y ddeddfwriaeth Diogelu Data berthnasol yn ei chyfanrwydd.

15. ATODIAD C - SAFON CENEDLAETHOL AR GYFER RHYDDHAU DATA I DRYDYDD PARTIÖN.

15.1 CYFLWYNIAD:

Heb os mae TCC yn un o'r teclynnau mwyaf pwerus a ddatblygwyd yn ystod y blynyddoedd diweddar er mwyn cynorthwyo efo taclo trosedd ac anrhefn a hynny wrth wella diogelwch cymunedol. Hefyd, gallai rhai pobl ei ystyried fel y tresbas mwyaf ar ryddid pobl. Os ydi defnyddwyr perchnogion a rheolwyr systemau o'r fath am fynnu parch y cyhoedd, rhaid i systemau nid yn unig gael eu defnyddio gyda'r cywirdeb mwyaf posibl bob amser, a dylid eu defnyddio mewn modd sy'n gwrthsefyll cael eu craffu a'u bod yn atebol i'r union bobl maent yn ceisio eu diogelu.

Mae Pwyllgor Safonau Grŵp Defnyddwyr TCC wedi ymrwymo i'r gred bod gan bawb yr hawl i barch i'w bywyd preifat a theuluol a'u cartref. Er bod y defnydd o gamerâu TCC wedi ei dderbyn yn gyffredinol yn y DU fel teclyn diogelwch effeithiol, mae'r bobl hynny sy'n mynegi pryder yn tueddu i wneud hynny ynglŷn â sut caiff yr wybodaeth (data) mae'r System yn ei gasglu ei thrin.

Ar ôl ymchwil ac ymgynghori sylweddol, mabwysiadwyd y canllaw canlynol fel safon a argymhellir yn genedlaethol gan Bwyllgor Safonau'r Grŵp Defnyddwyr TCC a'r Uned Gwybodaeth Llywodraeth Leol mewn ymgynghoriad efo Ymgynghoriaeth CMG.

15.2 POLISI CYFFREDINOL:

Argymhellir yn gryf y dylid sefydlu trefnau lleol er mwyn sicrhau bod yna ddull safonol tuag at ddelio efo ceisiadau am ryddhau data. Argymhellir bod bob cais yn cael ei sianelu trwy'r Rheolwr Data⁽¹⁾. Nodyn⁽¹⁾ Y Rheolwr Data ydi'r un (un ai ar ben eu hun neu ar y cyd ag eraill) sydd yn penderfynu i ba bwrpas ac ym mha fodd y dylid prosesu unrhyw ddata personol. (Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'n debygol mai perchennog y cynllun neu'r rheolwr fydd y Rheolwr Data).

15.3 CAIS SYLFAENOL I WELD DATA:

Bydd ceisiadau sylfaenol i weld data a gynhrychir gan System TCC yn debygol o ddod gan drydydd parti am unrhyw un neu fwy o'r rhesymau canlynol.

- a) Darparu tystiolaeth mewn achosion troseddol (e.e. Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984, Deddf Trefniadaeth ac Ymchwiliadau Troseddol 1996, etc.)
- b) Darparu tystiolaeth mewn trafodion neu dribiwnlysoedd sifil.
- c) Atal trosedd.
- d) Ymchwilio a chanfod troseddau (gallai gynnwys amlygu troseddwyr).
- e) Amlygu tystion.

- 1 Gallai trydydd partïon, a ddylid dangos seiliau digonol ar gyfer datgelu data o fewn y meini prawf uchod, gynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i'r:
 - a) Heddlu ⁽¹⁾
 - b) Awdurdodau statudol gyda'r pwerau i erlyn (e.e. Tollau Tramor a Chartref; Safonau Masnach etc).
 - c) Cyfreithwyr ⁽²⁾
 - d) Achwynwyr mewn achosion sifil ⁽³⁾
 - e) Unigolion neu ddifinyddion mewn achosion troseddol ⁽³⁾
 - f) Asiantaethau eraill, (y dylid eu nodi yn y Cod Ymarfer) yn ôl pwrpas a statws cyfreithiol ⁽⁴⁾.

- 2 Ar dderbyn cais dilys am ryddhau data oddi wrth drydydd parti, dylai perchennog y cynllun (neu'r gynrychiolydd):
 - a) Beidio yn ormodol â rhwystro ymchwiliad trydydd parti i ddilysu presenoldeb data perthnasol.
 - b) Sicrhau y cedwir data a allai fod yn berthnasol i gais, ond a allai fod yn aros cais amdano, neu'n aros am orchymyn llys neu subpoena, (gallai fod yn briodol rhoi terfyn amser ar gadw data o'r fath a dylid nodi hynny ar yr adeg y gwneir y cais). **O.N.** gallai terfyn amser fod yn berthnasol cyn belled bod rhybudd digonol wedi ei roi i'r asiant cyn dinistrio'r data a gedwir, (e.e. bod terfyn amser ar fin dod i ben).
 - c) Dan amgylchiadau a amlinellwyd yn nodyn ⁽³⁾ isod, (ceisiadau oddi wrth achwynwyr, rhai honedig neu ddifinyddion) dylai'r perchennog, (neu gynrychiolydd a enwebwyd):
 - d) Fod yn fodlon nad oes unrhyw gysylltiad gydag unrhyw ddata presennol a gedwir gan yr heddlu mewn cysylltiad â'r un ymchwiliad.
 - e) Drin pob ymholiad o'r fath gyda'r cyfrinachedd mwyaf.

Nodiadau:

- ⁽¹⁾ Efallai na fyddai rhyddhau data'n cael ei wrthod i'r heddlu sifil ond fe ellid (er enghraifft) ei wrthod i Heddlu Cludiant Prydain, Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn, Heddlu Milwrol etc. (Efallai bydd yn briodol gwneud trefniadau arbennig mewn ymateb i ofynion lleol).

- ⁽²⁾ Heblaw am ymchwiliadau troseddol, gallai data fod o werth tystiolaethol mewn perthynas ag achosion neu dribiwnlysoedd sifil. Mewn achosion o'r fath, bydd angen i gyfreithiwr, neu gynrychiolydd ag awdurdod o'r tribiwnlys, roi gwybodaeth berthnasol trwy lythyr cyn caniatáu chwiliad. Pe bai chwiliad yn arwain at ofyn am ryddhau data, bydd rhyddhad o'r fath ddim ond yn cael ei wneud yn dilyn cyfarwyddiadau gorchymyn llys neu subpoena. Efallai credir ei bod yn addas codi ffi am y gwasanaeth hwn. Dim ond ar gyfer pwrpasau cyfreithlon a chyfiawn y bydd data yn cael ei ryddhau ym mhob achos.

- (³) Efallai bydd achosion lle bydd ymholiad gan achwynydd, unigolyn honedig, diffynnydd neu gyfreithiwr amddiffyn yn syrthio tu allan i delerau datgelu neu ddeddfwriaeth mynediad testun. Gallai ymchwilio i alibi fod yn enghraifft. Efallai na fyddai ymholiad o'r fath yn rhan o ymchwiliad am erlyniad. Gallai ymholiadau amddiffyn hefyd olygu achos lle ymddengys nad oes unrhyw dystiolaeth wedi'i gofnodi mewn ymchwiliad am erlyniad. Dylai perchennog y cynllun benderfynu pa "asiantaethau eraill" (os o gwbl) a fyddai â chaniatâd i gael mynediad at ddata. Yn dilyn amlygu'r "asiantaethau eraill" hynny, bydd mynediad o'r fath at ddata ond yn cael ei ganiatáu yn unol â'r Safon hwn. Gall Rheolwr Data wrthod cais oddi wrth unigolyn os darperir gwybodaeth annigonol neu anghywir. Dylai cais am chwiliad fod â chywirdeb cymharol fanwl (gellid ei fanylu mewn ½ awr).

15.4 CAIS EILAIDD I WELD DATA:

- 1 Gellir diffinio cais 'eilaidd' i weld data fel unrhyw gais a wneir sydd ddim yn syrthio o fewn categori cais sylfaenol. Cyn cydymffurfio efo cais eilaidd, dylai perchnogion y cynllun sicrhau:
 - a) Nad yw'r cais yn groes, ac na fyddai cydymffurfio efo'r cais yn torri'r ddeddfwriaeth berthnasol gyfredol, (e.e. Diogelu Data, adran 163 Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994, etc.);
 - b) Cydymffurfiwyd efo unrhyw ofynion deddfwriaethol, (e.e. gofynion y Ddeddf Diogelu Data);
 - c) Bod unrhyw gyfraith achos (presennol neu gorffennol) a allai fod yn berthnasol (e.e. R v Brentwood BC ex p. Peck) wedi cael eu hystyried, a
 - d) Byddai'r cais yn pasio prawf 'datgelu er lles y cyhoedd'(¹)

- 2 Os, wrth gydymffurfio efo cais eilaidd i weld data, y gwneir penderfyniad i ryddhau deunydd i drydydd parti, dylid cymryd y rhagofalon canlynol cyn rhyddhau'r deunydd;
 - a) Mewn perthynas â deunyddiau i'w rhyddhau o dan nawdd 'atal trosedd', dylid cael cytundeb ar bapur oddi wrth swyddog o'r heddlu, ar lefel arolygydd neu uwch, i ryddhau'r deunydd. Dylai'r swyddog fod â gwybodaeth bersonol ynglŷn ag amgylchiadau'r drosedd/ troseddau i'w hatal a dealltwriaeth ynglŷn â Chod Ymarfer y System TCC (²).
 - b) Os yw'r deunydd am gael ei ryddhau o dan nawdd 'lles y cyhoedd', 'iechyd neu ddiogelwch' dylid cael cytundeb ar bapur oddi wrth uwch swyddog o fewn Awdurdod Lleol. Dylai'r swyddog fod â gwybodaeth bersonol ynglŷn ag amgylchiadau'r drosedd/ troseddau i'w hatal a dealltwriaeth ynglŷn â Chod Ymarfer y System TCC.

- 3 Gellir defnyddio deunyddiau wedi eu recordio ar gyfer pwrpasau hyfforddiant dilys fel hyfforddi'r heddlu neu staff. Ni ddylid rhyddhau deunyddiau wedi eu recordio i'w gwerthu'n fasnachol ar gyfer pwrpasau hyfforddiant neu adloniant dan unrhyw amgylchiadau.

Nodiadau

- (1) Gallai datgelu er lles y cyhoedd gynnwys datgelu data personol sy'n:
- 1 Darparu gwybodaeth benodol a fyddai o werth neu o ddiddordeb i les y cyhoedd
 - 2 Amlygu mater iechyd cyhoeddus neu ddiogelwch
 - 3 Arwain at atal trosedd
- (2) Byddai dateglu data personal sy'n destun ymchwiliad troseddol 'byw' bob amser yn dod o dan delerau cais sylfaenol, (gweler **Paragraff 15.3** uchod).

15.5 MYNEDIAD TESTUN UNIGOL O DAN Y DDEDDFWRIAETH DIOGELU DATA:

- 1 O dan delerau'r ddeddfwriaeth Diogelu Data, rhaid caniatáu mynediad i unigolion at ddata personol, gyda'r unigolyn hwnnw yn destun y data hwnnw, cyn belled:
- a) Bod y cais wedi'i wneud trwy lythyr;
 - b) Bod ffi benodol wedi'i thalu ar gyfer pob chwiliad unigol;
 - c) Bod y Rheolwr Data wedi cael gwybodaeth ddigonol i'w fodloni ynglŷn â phwy yw'r unigolyn yn gwneud y cais;
 - d) Bod yr un sy'n gwneud y cais yn darparu gwybodaeth ddigonol a chywir ynglŷn â'r amser, dyddiad a'r lle er mwyn galluogi'r Rheolwr Data i ddod o hyd i'r wybodaeth mae'r unigolyn hwnnw eisiau, (cydnabyddir na fyddai rhywun sy'n gwneud cais yn debygol o wybod yr union amser. O dan yr amgylchiadau hynny, awgrymir y byddai bod o fewn awr o'r union amser yn rhesymol).
 - e) Mai dim ond gwybodaeth sy'n berthnasol i'r chwiliad penodol hwnnw ac sy'n cynnwys data personol am eu hunain yn unig y dangosir gwybodaeth i'r un sy'n gofyn am ei gweld, oni bai bod yr holl unigolion eraill y gellir eu hadnabod o'r un wybodaeth wedi caniatáu ei datgelu.
- 2 Pe bai perchennog cynllun yn cydymffurfio efo cais i gyflenwi copi o'r data i'w testun, dim ond data sy'n ymwneud â'r unigolyn y dylid ei gopïo, (dylid cuddio neu ddileu pob data personol arall a allai helpu efo adnabod unrhyw unigolyn arall). O dan yr amgylchiadau hyn, efallai bydd rhaid talu ffi ychwanegol.
- 3 Mae gan y perchennog hawl i wrthod cais oddi wrth unigolyn i weld data o dan y darpariaethau hyn os darperir gwybodaeth annigonol neu anghywir. (Fodd bynnag, dylid gwneud bob ymdrech i gydymffurfio

Fodd bynnag, dylid gwneud pob ymdrech i gydymffurfio efo trefnau mynediad testun a dylid trin bob cais ar ei rinwedd ei hun).

- 4 Dylai'r cod ymarfer restru trefnau ar gyfer rhyddhau data personol. Cyn i drydydd parti weld data, mae'n rhaid i'r Rheolwr Data fod yn fodlon:
- a) Nad yw'r data ar hyn o bryd, cyn belled ag y gellir gweld yn rhesymol, yn debygol o ddod yn rhan o ymchwiliad troseddol 'byw';
 - b) Nad yw'r data ar hyn o bryd, cyn belled ag y gellir gweld yn rhesymol, yn debygol o ddod yn berthnasol i achos sifil;
 - c) Nad yw'r data yn destun cwyn neu anghydfod sydd heb ei datrys;
 - d) Mai'r data gwreiddiol yw'r data a bod y trywydd archwilio wedi ei gynnal;
 - e) Nad yw'r data yn cael ei symud neu ei gopïo heb gael yr awdurdod iawn;
 - f) Bod y data yn cael ei ddatgelu i unigolyn yn unig (h.y. i'w ddatgelu i destun penodol).

15.6 PROSES DDATGELU:

- 1 Gwirio cywirdeb y cais;
- 2 Ailchwarae'r data i'r un sy'n gofyn am ei weld yn unig, (neu unigolyn cyfrifol sy'n gweithredu ar ran yr un sy'n gwneud y cais);
- 3 Dylent gael gweld y data mewn ystafell ar wahân ac nid yn yr ardal reoli neu fonitro. Dim ond data sy'n benodol i'r cais chwiliad y dylid ei ddangos;
- 4 Ni ddylid gallu adnabod unrhyw un arall o'r wybodaeth sy'n cael ei dangos, (dylid cuddio unrhyw wybodaeth o'r fath, un ai trwy sgrinio electronig neu olygu ar sgrin y monitor^[1]);
- 5 Os gofynnir am gopi o'r deunydd ac nad oes modd o olygu data personol arall ar y safle, yna dylid anfon y deunydd at olygwyr i'w brosesu cyn ei anfon at yr un sy'n gofyn amdano.

Nodyn

- (1) Mae perchennog y cynllun yn debygol o dorri'r ddeddf Diogelu Data os ydi rhywun sy'n gwneud cais mynediad testun yn gallu adnabod unrhyw unigolyn arall o'r wybodaeth sy'n cael ei datgelu. Fodd bynnag, mae delwedd teledu yn un dau ddimensiwn ac nid oes gan y mwyafrif o gynlluniau TCC fynediad ar unwaith at y dechnoleg sydd ei hangen i guddio neu gael gwared ar unrhyw 'ddata arall'. Argymhellir dylid gofyn am gyngor Swyddfa'r Cofrestrydd Diogelu Data mewn perthynas ag unrhyw ddull y cynigir ei fabwysiadu.

15.7 DATGELU I'R CYFRYNGAU:

Dylid dilyn trefnau penodol ar gyfer datgelu data i drydydd parti. Os nad oes modd golygu data personol ar y safle, dylai'r camau nesaf gynnwys y canlynol:

- 1 Pe bai'r cyfryngau'n gofyn am fynediad at ddeunyddiau wedi eu recordio, dylid dilyn y trefnau a amlinellwyd o dan 'cais eilaidd i weld data'. Os yw'r deunydd am gael ei ryddhau, dylid mabwysiadu'r trefnau canlynol:
 - a) Rhaid cael dogfen ryddhau wedi ei llofnodi gydag unrhyw ddeunydd sy'n cael ei ryddhau, sy'n nodi'n glir ar gyfer beth fydd y data'n cael ei ddefnyddio ac yn amlinellu'r cyfyngiadau o ran ei ddefnydd.
 - b) Dylai'r ffurflen ryddhau nodi bod yn rhaid i'r un sy'n derbyn yr wybodaeth brosesu'r data mewn modd a ragnodwyd gan y Rheolwr Data, e.e. manylu unigolion/ data na ddylid eu datgelu.
 - c) Gallai hefyd ofyn am basio prawf o gael ei olygu yn ôl i'r Rheolwr Data, un ai i'w gymeradwyo neu ar gyfer caniatâd terfynol, cyn i'r cyfryngau ei ddefnyddio fel bwriadant (gan ddiogelu safbwynt y Rheolwr Data a fyddai'n atebol am unrhyw drosedd yn erbyn y ddeddf Diogelu Data a Chod Ymarfer y System).
 - d) Dylid meddwl am y ffurflen ryddhau fel contract a dylai'r ddwy ochr ei llofnodi (1):

Nodiadau

- (1) Yn achos enwog R v Brentwood Borough Council, ex parte Geoffrey Dennis Peck, (QBD Tachwedd 1997), daeth y barnwr i'r casgliad nad oedd y Cyngor wedi ymddwyn yn anghyfreithlon trwy ryddhau darllediad fideo. Cafwyd sicrwydd llafar byddai'r darlledwyr yn cuddio pwy oedd yr unigolyn. Er gwaetha' ymdrechion pellach gan y Cyngor i sicrhau na fyddai'r unigolyn yn cael ei adnabod, mewn gwirionedd darlledodd y cwmni teledu ohebiaeth lle na chuddiwyd pwy oedd Peck. Daeth y barnwr i'r casgliad y dylid ystyried canllawiau llymach er mwyn osgoi darlledu damweiniol yn y dyfodol.

15.8 EGWYDDORION:

Wrth ddarlledu'r safon cenedlaethol hwn ar gyfer rhyddhau data i drydydd parti, bwriedir, cyn belled a bo'n ymarferol, i ddiogelu hawl yr unigolyn i breifatrwydd a gweithredu'r egwyddorion canlynol:

- 1 Bydd deunyddiau wedi ei recordio yn cael eu prosesu yn gyfreithlon a theg, a'i defnyddio yn unig ar gyfer y pwrpasau a ddiffiniwyd yn y Cod Ymarfer ar gyfer y Cynllun TCC;
- 2 Bydd mynediad at ddeunyddiau wedi ei recordio dim ond yn digwydd yn unol â'r Safon hwn a'r Cod Ymarfer;
- 3 Gwaherddir rhyddhau neu ddatgelu data ar gyfer pwrpasau masnachol neu adloniant.

